OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 192 (Cy.24)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*2 Chwefror 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Chwefror 2009*
Yn dod i rym - -	*25 Chwefror 2009*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â chamau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cwblhau'r ymgynghoriad a oedd yn ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelu Bwyd Ewropeaidd ac yn gosod y gweithdrefnau ym materion diogelwch bwyd(**3**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2009; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 25 Chwefror 2009.

Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

2. Diwygir Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008(**4**) ("y prif Reoliadau") yn unol â rheoliad 3.

Diwygiadau i destun Cymraeg y prif Reoliadau

3. Diwygir testun Cymraeg y prif Reoliadau fel a ganlyn—

(**1**) O.S. 2008/1792.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 202/2008 (OJ Rhif L60, 5.3.2008, t.17).
(**4**) O.S. 2008/3154 (Cy.282).